

# cyfrifiad 2021

Cynhelir y cyfrifiad unwaith bob 10 mlynedd ac mae'n cyfrif pob person a phob cartref yng Nghymru a Lloegr. Mae angen tîm mawr arnom ni yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol o tua 35,000 o swyddogion maes y cyfrifiad i wneud hynny'n ddiraffferth.

Mae swyddogion maes yn chwarae rôl allweddol wrth helpu i wneud yn siŵr bod pawb yn cael y cyfle i gymryd rhan. Gan weithio fel rhan o dîm maes, byddant yn ymweld â phobl nad ydynt wedi llenwi ffurflen y cyfrifiad eto ac yn helpu i'w hannog i gymryd rhan.

Bydd y gwaith hwn yn dechrau ar ôl diwrnod y cyfrifiad, sydd ar 21 Mawrth eleni. Iechyd a Diogelwch yw ein prif flaenoriaeth. Rydym yn dilyn holl ganllawiau diogelwch y llywodraeth ar y Coronafeirws. Ac fe welwch chi o'r ffilm hon yr holl weithdrefnau a chyfarpar diogelu personol sydd gennym i'ch cadw chi a'n swyddogion maes y cyfrifiad yn ddiogel bob amser.

## Ein Cyfarpar Diogelu Personol

Bydd swyddogion y cyfrifiad yn cael gorchuddion wyneb, diheintydd dwylo, weips diheintio, peg postio, fest llachar a bag i gario eu cyfarpar ynddo.

## Mynd at eiddo

Pan fydd swyddog yn cyrraedd eiddo, dylai ddefnyddio diheintydd dwylo i gynnal safonau hylendid dwylo da ac wedyn wisgo ei orchudd wyneb.

## Y Drefn ar Garreg y Drws

Pan fydd y swyddog yn cyrraedd yr eiddo ac yn curo ar y drws, dylai gamu yn ôl 2 fetr er mwyn cadw pellter cymdeithasol diogel. Pa fydd deiliad y cartref yn ateb y drws, dylai'r swyddog ddangos ei fathodyn adnabod a gofyn iddo a yw'n hapus i'r sgwrs gael ei chynnal â phellter o 2 fetr rhyngddyn nhw.

Mae hynny'n iawn, diolch, rwy'n gallu eich deall chi'n iawn â'r masg ymlaen.

Os bydd angen camu'n agosach am unrhyw reswm er enghraifft i drosglwyddo dogfennau, gellir gwneud hyn yn ddiogel o hyd, gan y bydd y swyddog yn gwisgo gorchudd wyneb a bydd yn cael ei wneud yn gyflym.

**Cedwir pellter cymdeithasol wrth ymweld â chyfeiriadau, a bydd swyddogion yn gweithredu mewn ffordd debyg i weithwyr post neu gwmnïau danfon bwyd mynd am sgwrs fer yn unig er mwyn helpu pobl i gymryd rhan.**

Pan nad oes ateb yn y cyfeiriad, gellir defnyddio'r peg postio i bostio dogfennau drwy'r blwch llythyrau. Unwaith y caiff yr ymweliad ei gwblhau'n ddiogel, gall y swyddog ddefnyddio'r weips diheintio i lanhau'r cyfarpar cyn paratoi yn yr un ffordd ar gyfer yr ymweliad nesaf.

Yn y ffilm hon, rydym wedi dangos y gweithdrefnau a'r cyfarpar rydym yn eu defnyddio yn ystod y cyfrifiad. Iechyd a Diogelwch yw ein prif flaenoriaeth ac rydym yn dilyn holl ganllawiau'r llywodraeth ar y Coronafeirws. Gallwch weld y bydd y gweithdrefnau a'r cyfarpar diogelu personol sydd gennym yn eich cadw chi a'n swyddogion maes y cyfrifiad yn ddiogel bob amser.